Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Maelgwn**
**Broad Street**
**Cyffordd Llandudno**
**Conwy**
**LL31 9HG**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Maelgwn wedi ei lleoli yn ardal drefol Cyffordd Llandudno yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Daw tua thraean o'r disgyblion o ardaloedd eraill cyfagos, yn cynnwys Glan Conwy, Conwy a Deganwy.

Mae 244 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, yn cynnwys 43 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae gan tua 15% o'r disgyblion yr hawl i ginio am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol o 21%.

Ar hyn o bryd, mae tua 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn debyg i'r ffigwr cenedlaethol. Nid oes unrhyw ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Y llynedd, roedd gan 43% o'r disgyblion oedd yn cael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Ysgol Maelgwn yn ysgol â dwy ffrwd ieithyddol. Ar hyn o bryd, mae 53% o'r disgyblion yn derbyn eu haddysg yn y ffrwd Gymraeg ac yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae ffigyrau Llywodraeth Cymru yn nodi bod 42% o holl ddisgyblion yr ysgol yn siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mai tua 12% o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn Prydeinig, gydag ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig cymysg, Tsieineaidd neu Asiaidd.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Rhagfyr 2007.

Cafodd y pennaeth ei phenodi ar gytundeb pennaeth dros dro ym Medi 2012. Roedd hi'n ddirprwy bennaeth yn yr ysgol cyn hynny. Mae uwch dîm rheoli newydd wedi ei sefydlu yn haf 2013, ac mae dau o athrawon newydd ar gytundeb blwyddyn wedi dechrau ym Medi 2013 ar eu swyddi addysgu ym mlynyddoedd uchaf y Cyfnod Sylfaen.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maelgwn yn 2013-2014 yw £3,774. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,575 a'r lleiafswm yw £3,230. Mae Ysgol Maelgwn yn safle'r 48fed o'r 58 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu, ac yn eu gafael ar fedrau rhif;
- bod yr addysgu ar draws yr ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi, gan ddangos dyfalbarhad ac ymdrech;
- bod lefelau presenoldeb yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb ysgolion tebyg; a
- bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o systemau olrhain cynnydd ar gyfer rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion â medrau sylfaenol gwan.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn ystod o gyd-destun ar draws y pynciau;
- nid yw mwyafrif disgyblion y ffrwd Saesneg yn gwneud digon o gynnydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg ail iaith;
- nid yw strategaethau asesu a chwestiynu gan athrawon yn cael digon o effaith ar gyflawniadau a chynnydd y disgyblion; ac
- nid oes digon o dasgau sydd yn targedu yn benodol anghenion disgyblion o lefelau gallu gwahanol yn y gwersi, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod y pennaeth wedi cryfhau systemau rheolaethol yr ysgol yn ddiweddar ac wedi dechrau mynd i'r afael yn effeithiol ag agweddau lle mae angen codi safonau;
- bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys bwriadau a strategaethau priodol ar gyfer gwelliant; a
- bod trefniadau priodol wedi eu cyflwyno ar gyfer hunan arfarnu a gwella ansawdd.

Fodd bynnag:

- nid yw trefniadau hunan arfarnu'r ysgol wedi eu gwreiddio'n llawn;
- nid yw staff eraill â chyfrifoldebau rheolaethol wedi cael digon o effaith ar wella'r ddarpariaeth a gwella cyflawniadau disgyblion; ac
- nid yw'r corff llywodraethol yn cyfrannu yn effeithiol at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol a darparu her i agweddau ar ei pherfformiad.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a'u gallu i'w defnyddio yn effeithiol ar lefel briodol yn eu gwaith ar draws pynciau'r cwricwlwm

A2 Codi safonau Cymraeg ail iaith ar draws yr ysgol

A3 Gwella agweddau ar yr addysgu a'r asesu, yn enwedig darparu tasgau gwahaniaethol, sicrhau bod ystod o strategaethau asesu effeithiol ar waith a sicrhau dilysrwydd asesiadau athrawon

A4 Sicrhau bod yr uwch dîm rheoli i gyd yn cyfrannu'n llawn i'r systemau gwella ansawdd a bod deilliannau arsylwi a chraffu yn cael eu defnyddio i nodi blaenoriaethau gwella

A5 Datblygu swyddogaeth y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol a'i gyfraniad at gynllunio strategol yr ysgol

A6 Rhoi sylw yn ddiymdroi i'r materion diogelwch

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
| --- | --- |

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd clir yn unol â nodau'r gwersi. Mewn lleiafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion o allu is na'r disgyblion mwy galluog yn cyflawni gystal ag y gallent. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Maent yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar. Mae llawer ohonynt yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus, a mynegi eu hunain yn glir ac mewn iaith sydd yn gynyddol gywir. Fodd bynnag, yn tua hanner y gwersi yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud digon o gynnydd yn y gallu i gynnig ymatebion mwy estynedig, a dangos y gallu i feddwl a rhesymu.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ddarllen ar goedd yn glir ac yn ystyrlon, gydag ychydig o ddisgyblion yn darllen gyda goslef ac yn lliwio'r mynegiant. Araf yw cynnydd lleiafrif y disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer datblygu medrau darllen sylfaenol gwan. Mae lleiafrif o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos mwynhad o ddarllen ac yn medru trafod hoff nofelau ac awduron. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw medrau ymateb i ddarllen yn llafar neu yn ysgrifenedig y disgyblion yn dangos digon o ddatblygiad. Mae disgyblion yn cywain gwybodaeth o'r we a ffynonellau eraill, ond nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu defnydd o'u medrau cyflwyno gwybodaeth fel rhan o'u gwaith mewn pynciau eraill.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain, gan ddangos gallu i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol a sillafu yn gywir. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol o atalnodi a phrif lythrennau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r disgyblion o allu uwch yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i amrywio brawddegau ac ysgrifennu'n gydlynol a diddorol erbyn diwedd Blwyddyn 2 mewn ystod o gyd-destunau. Mae lleiafrif o ddisgyblion heb fod yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus ac nid oes digon o gynnydd yn ansawdd llawysgrifen y disgyblion hyn.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu yn fwy estynedig yn eu geiriau eu hunain. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn ysgrifennu'n helaeth, gan ddefnyddio paragraffu ac atalnodi, yn cynnwys defnydd o ddyfynodau. Maent yn cofnodi eu cynlluniau o arbrofion gwyddonol gan ddangos gafael dda ar derminoleg bynciol a chyflwyno casgliadau yn gryno. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu i gofnodi yn estynedig mewn ystod o gyd-destunau ar draws y pynciau. Er bod disgyblion yn

drafftio darnau ysgrifenedig, nid ydynt yn gwneud defnydd llawn o fedrau ail-ddrafftio i wella cynnwys a chywirdeb eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd sylfaenol yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn datblygu dealltwriaeth briodol o ffeithiau rhif ac yn medru nodi a defnyddio perthynas rhif. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau cyfrifo yn y pen yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn effeithiol ar y lefel briodol mewn ystod o gyd-destunau ar draws y pynciau.

Mae disgyblion blynyddoedd isaf y Cyfnod Sylfaen yn y ffrwd Saesneg yn gwneud cynnydd cychwynnol priodol yn eu gallu i ddeall a dilyn defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyfarwyddo a chyfrwng dysgu. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canlyniadau asesiadau athrawon Cymraeg ail iaith yn dangos patrwm o gynnydd ac yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn safonau'r gwaith ar frig Cyfnod allweddol 2 y llynedd. Lleiafrif o'r disgyblion sydd yn siarad yn hyderus gan amrywio brawddegau, a rhy ychydig yw'r cynnydd ym medrau ysgrifennu'r disgyblion erbyn diwedd y cyfnod allweddol.

Mae cyflawniadau'r disgyblion yn asesiadau'r Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol wedi bod yn is na ffigurau'r teulu a Chymru ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig yn 2013. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad gan mwyaf wedi bod ymhlith y 50% is neu'r 25% isaf dros ddwy flynedd, ac yn y 25% isaf ymhob dangosydd yn 2013. Fodd bynnag, roedd y ffigwr uchel o ddisgyblion cinio am ddim ym Mlwyddyn 2 yn 2013 yn ffactor arwyddocaol. Mae cyflawniadau'r merched yn y Cyfnod Sylfaen yn arwyddocaol well na chyflawniadau'r bechgyn, yn enwedig yn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu patrwm o gynnydd arwyddocaol dros bedair blynedd, gyda pherfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn gyffredinol yn uwch na'r teulu a Chymru yn 2012 a 2013. Ar y lefelau uwch, mae perfformiad o gwmpas neu'n uwch na ffigyrau'r teulu, ac eithrio yn Saesneg. Mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob dangosydd yn 2013, ac ymhlith y 50% uwch neu'r 25% uchaf ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch yn 2012 a 2013. Fodd bynnag, nid yw safonau gwaith yn llyfrau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn adlewyrchu'r canlyniadau hyn yn llawn, yn enwedig ar y lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, gyda llawer ohonynt yn gwneud defnydd helaeth o'r troli ffrwythau dyddiol. Mae niferoedd arwyddocaol yn manteisio ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon mewn clybiau allgyrsiol ac amser cinio.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda yn y gwersi. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at waith ac yn ymroi i'r gweithgareddau dysgu, gan wneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser.

Mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n ffafriol a chyfraddau ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim, ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn y dosbarthiadau, mae disgyblion yn cynnig syniadau ar gyfer y gweithgareddau dysgu drwy awgrymu trywyddau astudio wrth ddechrau thema newydd.  Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol.  Yn sgil eu trafodaethau, maent yn cynnig syniadau ac wedi dylanwadu ar benderfyniadau megis cael mwy o fyrddau i'r ffreutur a sefydlu'r 'blwch teimladau' fel modd i'r disgyblion gofnodi materion sy'n peri gofid iddynt.

Drwy'r cynllun 'Mêts grêt', mae disgyblion hŷn yn meithrin gofal am eraill drwy ymwneud â'r plant iau ar adegau egwyl a chinio.  Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'r gymuned leol drwy ymweliadau a chodi arian at elusennau arbennig.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn datblygu medrau mentergarwch drwy'r prosiectau y maent yn ymgymryd â hwy.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae ymweliadau addysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm, gyda'r profiadau dysgu fel rhan o'r gwaith thema yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o agweddau ar hanes a diwylliant lleol a chenedlaethol yn effeithiol.  Mae'r niferoedd arwyddocaol o'r disgyblion sy'n derbyn gwersi offerynnol amrywiol yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn nodi medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn briodol mewn cynlluniau gwaith.  Mae timau athrawon yr ysgol ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi cyflawni gwaith cychwynnol buddiol yn llunio polisïau a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau yn unol â gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.  Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer y dilyniant a pharhad yn y medrau wedi cael digon o effaith o ran sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio'r medrau ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Nid yw'r ysgol yn cynllunio yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer meithrin dealltwriaeth y disgyblion o fywyd a diwylliant mewn gwledydd eraill, yn cynnwys cymryd rhan mewn cynllun sy'n hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol rhwng ysgolion.  Mae'r cyngor eco yn gwneud cyfraniad buddiol i'r gwaith o wella amgylchedd yr ardal leol drwy gydweithio gyda'r awdurdod lleol a siop leol.  Mae'r disgyblion wedi elwa hefyd o waith y cyngor ysgol yn cyfrannu at fonitro defnydd yr ysgol o drydan, llunio posteri arbed dŵr a chymryd rhan mewn ymgyrch 'lleihau baw ci' yn y gymuned leol.

**Addysgu:  Digonol**

Mae athrawon yn creu amgylchedd ddysgu gynhaliol yn y dosbarthiadau, sydd yn galluogi disgyblion i fwrw ymlaen â'u gwaith.  Maent yn cynllunio dilyniant o weithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol.  Mae

rhediad y gwersi yn briodol ac yn sicrhau bod disgyblion yn parhau ar dasg ac yn dyfalbarhau. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i weithio ar y cyd mewn parau ac mewn grwpiau bach.

Ym mwyafrif y gwersi, mae'r cwestiynau y mae'r athrawon yn eu gofyn i'r disgyblion yn eu hannog i feddwl wrth gynnig atebion. Fodd bynnag, yn enwedig yn lleiafrif y gwersi yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gynnig esboniadau a defnyddio eu medrau meddwl i wella eu medrau llafar, ynghyd â'u dealltwriaeth o'r gwaith. Mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn talu digon o sylw i anghenion yr ystod lawn o allu yn y dosbarthiadau drwy gynllunio tasgau sy'n sicrhau her ar lefel briodol i ddisgyblion ar bob lefel o ran gallu.

Mae systemau asesu ac olrhain cynnydd cynhwysfawr gan yr ysgol, sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag gweddau ar gyflawniad disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae nifer o strategaethau asesu priodol wedi cael eu mabwysiadu yn ddiweddar, ond nid yw'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson ac nid ydynt yn cael digon o effaith o ran rhoi cymorth i ddisgyblion ar sut i wella safon eu gwaith.

Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion yn ddigon trylwyr.

Mae adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n dysgu disgyblion sut i baratoi prydau bwyd iach. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol â thîm cynhwysiad addysg yr awdurdod lleol i gefnogi plant ag anawsterau ymddygiad. Ers ei sefydlu yn 2012, mae ystafell faethu'r ysgol yn gweithredu fel cyswllt gweithredol rhwng asiantaethau arbenigol ac yn darparu gwasanaeth cwnsela proffesiynol i ddisgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Caiff y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan arweiniol yn ystod cyfnodau addoli ar y cyd boreol, ynghyd â chyfleoedd i fyfyrio yn ystod y cyfnodau 'munud i feddwl' yn y dosbarthiadau. Mae cynlluniau fel 'Mêts grêt' a'r 'wythnos barchu eraill' yn meithrin agweddau cadarnhaol gan ddisgyblion at ei gilydd a synnwyr o gyfrifoldeb dros eraill.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Er hynny, nodwyd nifer fach o faterion yn ystod yr arolygiad y mae angen i'r ysgol fynd i'r afael â hwy yn ddiymdroi.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol, ac mae'n cadw golwg ar eu cynnydd yn effeithiol drwy gyfrwng y systemau olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn manteisio'n briodol ar gysylltiadau ag asiantaethau allanol, ac mae'r cymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn yn cael ei gydlynu'n effeithiol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn briodol ac mae'r trefniadau ar gyfer eu hadolygu a'u diweddaru yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chyfeillgar yn bodoli yn yr ysgol, gyda'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ei gilydd ac oedolion, a lefelau uchel o gwrteisi wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfleoedd a hawliau cyfartal ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth benodol yn y gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy'r wythnosau parchu eraill.

Mae'r adeiladau mewn cyflwr priodol ac yn cynnig digon o le. Mae'r safle eang yn cael ei defnyddio'n llawn i greu ardaloedd ar gyfer gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Manteisia'r ysgol ar gaeau lleol er mwyn hybu gweithgareddau chwaraeon gan nad oes ganddi ei llain werdd ei hun.

Mae'r amgylchedd ym mannau cyhoeddus yr adeilad yn gwneud defnydd helaeth o arddangosfeydd deniadol. Gan mwyaf, mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig amodau priodol. Serch hynny, nid yw amgylchedd yr ardaloedd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n llawn i gynnig amodau ysgogol i hyrwyddo'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol gyflenwadau priodol o adnoddau dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers ei phenodiad ym Medi 2012, mae'r pennaeth wedi gweithredu'n briodol i wella ar berfformiad yr ysgol ac agweddau pwysig ar y ddarpariaeth. Mae dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad wedi arwain at nodi agweddau penodol lle mae angen gwella ac wedi arwain at nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu nifer o ddatblygiadau buddiol o ran cryfhau sefyllfa staffio'r ysgol a sefydlu uwch dîm rheoli. Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiadau swyddi priodol ac mae eu cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Yn ogystal, mae camau priodol wedi eu cymryd i gryfhau systemau, er enghraifft trefniadau olrhain cynnydd disgyblion a threfniadau gwella ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi gwreiddio eto i weld eu heffaith ar gyflawniadau disgyblion, yn enwedig ym meysydd asesu ar gyfer dysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau buddiol ar berfformiad yr ysgol, ac mae nifer o'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol i wella eu dealltwriaeth o'i bywyd a'i gwaith. Serch hynny, nid yw dealltwriaeth y llywodraethwyr o ddata a safonau'r ysgol wedi datblygu digon i'w galluogi i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad. O ganlyniad, nid yw'r corff llywodraethol yn cyfrannu ddigon at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol raglen fonitro briodol i lywio'r gwaith o wella ansawdd dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r pennaeth wedi cynnal nifer o arsylwadau i fonitro ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarthiadau, ac mae'r gwaith o archwilio llyfrau'r disgyblion

wedi dechrau. Serch hynny, nid yw'r wybodaeth yn deillio o fonitro gwersi a chraffu ar lyfrau yn cael ei defnyddio i adnabod blaenoriaethau gwella. Nid yw aelodau eraill o staff â chyfrifoldebau rheolaethol yn cyfrannu digon at y trefniadau gwella ansawdd. Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer canfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron sy'n cael eu defnyddio'n briodol fel rhan o'r broses wella ansawdd.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol, gan nodi agweddau priodol ar ei pherfformiad lle mae angen gwella.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys strategaethau addas ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Mae hefyd yn cynnwys targedau mesuradwy addas ar gyfer mesur y cynnydd yn safonau a chyflawniadau'r disgyblion.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd ers yr arolygiad diwethaf yn mynd i'r afael â lleiafrif o'r argymhellion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â'r rhieni. Fel rhan o ymgyrch i wella medrau darllen, mae clybiau darllen yr ysgol ar gyfer y disgyblion a'u teuluoedd yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd y plant i ddarllen yn ogystal â gwella cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae niferoedd arwyddocaol o deuluoedd wedi manteisio ar y ddarpariaeth hon. Yn ogystal, mae'r 'teithiau dysgu' gyda'r nos i rieni dan arweiniad y pennaeth yn drefniant defnyddiol.

Mae cysylltiadau agos â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, gydag aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol. Cymerodd yr ysgol ran flaenllaw ym mhrosiect asiantaeth yr amgylchedd er mwyn creu posteri o amgylch yr ardal leol. Mae cyswllt cryf yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r archfarchnadoedd lleol sy'n cefnogi a chyfoethogi profiadau'r disgyblion ynglŷn â chynaladwyedd. Mae'r ysgol hefyd yn manteisio ar berthynas dda gydag addoldai lleol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol â'r cylch meithrin sy'n ei bwydo a gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gydag ysgolion lleol i gymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cynorthwyol ac mae'r staff ategol yn cael eu defnyddio yn effeithiol. Mae camau penodol wedi eu cymryd i ail-strwythuro staffio i gyfateb yn well i anghenion yr ysgol. Mae trefniadau priodol wedi eu cyflwyno yn ddiweddar ar gyfer rheoli perfformiad statudol, gyda hyn wedi arwain at nodi anghenion ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn briodol, gyda'r is-bwyllgorau cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro gwariant. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn clustnodi symiau priodol ar gyfer gweithredu ar sail y blaenoriaethau gwella.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen, bu gostyngiad arwyddocaol ym mron i bob dangosydd rhwng 2012 a 2013. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig yn 2013. Yn gyffredinol, mae'r un tueddiad i'w weld yn y meysydd dysgu yn unigol, yn enwedig sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Er y bu peth gwelliant ar y deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae'r canlyniadau'n parhau yn arwyddocaol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Ym meysydd sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a datblygiad mathemategol, roedd perfformiad yn debyg i'r cyfartaleddau teulu a Chymru yn 2012 ond yn arwyddocaol is yn 2013.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, roedd perfformiad ar y deilliant disgwyliedig ymhlith y 25% isaf ymhob dangosydd yn 2013, a gan mwyaf ymhlith y 50% is neu'r 25% isaf yn 2012. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% is neu'r 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu patrwm arwyddocaol o welliant dros bedair blynedd yn y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd yn unigol, gyda pherfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn gyffredinol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn 2012 a 2013. Mae cyflawniadau'r disgyblion mewn ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn arwyddocaol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r cyflawniadau mewn Cymraeg ail iaith hefyd wedi codi'n sylweddol dros gyfnod a gan mwyaf yn uwch na ffigyrau'r teulu a Chymru, yn enwedig yn 2013.

Bu patrwm o welliant arwyddocaol mewn cyflawniadau ar y lefelau uwch hefyd, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Bu'r cyflawniadau o gwmpas neu'n uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ond gan mwyaf mae cyflawniadau yn parhau'n is na'r cyfartaleddau mewn Saesneg.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob dangosydd yn 2013. Mae hyn yn dilyn cyfnod o fod yn y 25% isaf mewn llawer o'r dangosyddion mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae cyflawniadau'r merched yn y Cyfnod Sylfaen yn arwyddocaol well na'r bechgyn, yn enwedig yn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg ar y deilliant disgwyliedig. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm arwyddocaol dros gyfnod o ran y bwlch rhwng cyflawniadau'r merched â rhai'r bechgyn, ac eithrio ar y lefel ddisgwyliedig yn Saesneg.

Nid oes patrwm arwyddocaol dros gyfnod o ran cyflawniadau disgyblion â’r hawl i brydau ysgol am ddim o’u cymharu â gweddill y disgyblion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 94 | 94<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 94 | 83<br>88%<br>92% | 11<br>12%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 94 | 91<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 94 | 94<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 94 | 93<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 94 | 89<br>95%<br>96% | 5<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 94 | 94<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 94 | 92<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 94 | 91<br>97%<br>91% | 3<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 93 | 87<br>94%<br>95% | 6<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 94 | 68<br>72%<br>78% | 26<br>28%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 93 | 71<br>76%<br>84% | 22<br>24%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 14 | 6<br>43%<br>63% | 7<br>50%<br>33% | 1<br>7%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 14 | 9<br>64%<br>72% | 4<br>29%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 14 | 12<br>86%<br>72% | 2<br>14%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 13 | 6<br>46%<br>61% | 7<br>54%<br>34% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 14 | 6<br>43%<br>45% | 7<br>50%<br>46% | 1<br>7%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 14 | 6<br>43%<br>60% | 8<br>57%<br>35% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 14 | 6<br>43%<br>63% | 8<br>57%<br>34% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 6<br>43%<br>47% | 5<br>36%<br>40% | 2<br>14%<br>6% | 1<br>7%<br>1% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 14 | 7<br>50%<br>58% | 6<br>43%<br>34% | 0<br>0%<br>4% | 1<br>7%<br>1% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 7<br>50%<br>59% | 5<br>36%<br>36% | 1<br>7%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at school. | 14 | 8<br>57%<br>66% | 6<br>43%<br>31% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 7<br>50%<br>50% | 4<br>29%<br>35% | 1<br>7%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 14 | 7<br>50%<br>49% | 4<br>29%<br>41% | 3<br>21%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

Adroddiad ar Ysgol Maelgwn
Medi 2013

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 14 | 8<br>57% | 3<br>21% | 2<br>14% | 1<br>7% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 14 | 7<br>50% | 4<br>29% | 1<br>7% | 1<br>7% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 7<br>50% | 3<br>21% | 2<br>14% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 14 | 6<br>43% | 7<br>50% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 7<br>50% | 5<br>36% | 2<br>14% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Tîm |
| Eirian Myfanwy Williams | Arolygydd Lleyg |
| Marc Lloyd Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gisella Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.